# CAMFANTEISIO'N RHYWIOL/CAMFANTEISIO TROSEDDOL AR BLANT | MAP PROSES

FFURFLEN DYLETSWYDD I ROI GWYBOD YN DOD I LAW A/NEU BRYDERON YN CAEL EU MYNEGI YNGHYLCH CAMFANTEISIO'N RHYWIOL A/NEU GAMFANTEISIO TROSEDDOL.

**ALLWEDD**

- GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
- HEDDLU GWENT
- CYDWEITHREDIAD

Creu achos newydd neu ddyrannu achos newydd i achos sy'n bodoli eisoes.

Cynnal ymholiadau ochrol i bennu ffactorau risg. Os yw'r achos ar agor, mae'r gweithiwr sydd wedi'i ddyrannu i ddechrau llenwi dogfen pecyn cymorth.

Gwybodaeth yn dod i law sy'n dangos bod y plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gamfanteisio.

Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd i'w gyflwyno i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Oes ffactorau risg wedi'u nodi mewn perthynas â chamfanteisio

- **Nac oes** → Ystyried asesiad os oes anghenion gofal a chymorth wedi'u nodi, neu atgyfeirio at wasanaethau eraill. Fel arall, achos i gau.
- **Oes** → Gofyn am Drafodaeth Strategaeth amlasiantaethol.

Hwb diogelu i ddod i'r Drafodaeth Strategaeth.

O fewn y Drafodaeth Strategaeth, mae pob ffactor risg i'w hamlygu ac ystyried a yw'r trothwy yn cael ei fodloni. Dylai gynnwys ymweliad ar y cyd gyda swyddogion tîm camfanteisio yr heddlu. Bydd y broses o dan baramedrau ac amserlen gweithdrefnau amddiffyn plant adran 47.

Ystyrir bod plentyn ar garfan camfanteisio a chymeradwyir ymweliad ar y cyd i'w gynnal o fewn 24 awr.

Hwb diogelu i hysbysu'r Tîm Camfanteisio drwy anfon digwyddiad i'r blwch tasgau.

Mae Digwyddiad Meistr ar gyfer y plentyn yn cael ei greu, mae baneri camfanteisio yn cael eu hychwanegu at y plentyn ar Niche ac mae digwyddiad Strategaeth yn cael ei gwblhau.
Plentyn i'w ychwanegu at daenlen ar Sharepoint. Ymchwil i'w gwblhau cyn ymweliad ar y cyd.

Ymweliad ar y cyd yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Camfanteisio. Oes pryderon ynghylch camfanteisio wedi'u nodi?

**Nac oes**

Pan gytunwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu:
Trafodwch â Ditectif Ringyll.
Rhesymeg lawn ynghylch pam nad oes bryderon camfanteisio i gael ei chofnodi a'i hanfon ymlaen trwy e-bost at weithiwr cymdeithasol.

Gweithiwr cymdeithasol i drafod ac anfon rhesymeg i'r rheolwr.
A yw'r ddwy asiantaeth yn cytuno?

- **Nac ydyn** → Symud ymlaen i'r Cyfarfod Strategaeth Camfanteisio Cychwynnol
- **Ydyn** → Ymateb e-bost i gael ei anfon yn ôl i'r Tîm camfanteisio yn cadarnhau cytundeb. Canlyniad i alinio â phob proses yr Awdurdod Lleol.

E bost cytundeb i'w ychwanegu at ddigwyddiad.
Baneri i gael eu tynnu, cwblhau'r digwyddiad a thynnu'r baneri o'r daenlen.

**Oes**

Risgiau wedi'u nodi i'w hychwanegu at ddigwyddiad gan y Swyddog â Gofal.
Risgiau i'w hadolygu gan Dditectif Ringyll a'u cadarnhau os yw'r plentyn hwnnw i symud ymlaen i'r pecyn cymorth a pharhau i gael ei reoli o dan y garfan.
Digwyddiad i'w gymeradwyo mai dyma farn yr heddlu a fydd yn cael ei drafod mewn fforwm amlasiantaeth lle bydd penderfyniad cydweithredol ar sut i symud ymlaen.

Dyddiad wedi'i gytuno gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Camfanteisio ar gyfer y Cyfarfod Strategaeth Camfanteisio Cychwynnol.

Dylai Gweithiwr Cymdeithasol sicrhau bod y pecyn cymorth yn gyfredol ar ôl yr ymweliad ar y cyd, a'r Tîm Diogelu i'w ddosbarthu i'r holl fynychwyr, 48 awr cyn y cyfarfod.

Cynnal Cyfarfod Strategaeth Camfanteisio cychwynnol.

Dylai'r cyfarfod ystyried a oes angen atgyfeiriad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) lle mae'r plentyn/person ifanc yn cael ei nodi fel dioddefwr masnachu a/neu gaethwasiaeth fodern.

Dylai'r cyfarfod hefyd egluro a fydd y plentyn/person ifanc yn agored i Dîm Camfanteisio yr heddlu a gosod Cynllun Gweithredu (bydd hyn yn cael ei rannu o fewn dau ddiwrnod gwaith).

Cyfarfodydd adolygu camfanteisio i'w cynnal yn ôl yr angen ac o fewn cyfnod o 12 wythnos yn dibynnu ar y risg (i'w cytuno yn y cyfarfodydd).

Dylai'r pecyn cymorth camfanteisio hefyd gael ei ddiweddaru gan y Gweithiwr Cymdeithasol yn ôl yr angen yn dibynnu ar risg.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddiweddaru i'w ddarparu i'r Tîm Diogelu 48 awr cyn y cyfarfod, a fydd yn ei ddosbarthu i'r mynychwyr.

Blaenau Gwent | Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | monmouthshire sir fynwy | Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd | Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen

HEDDLU GWENT POLICE

